CYLCHLYTHYR FFÊS 2

YSGOL BRO IDRIS

Cefnogi Wcrain

Mae disgyblion pob safle Ysgol Bro Idris wedi dangos eu cefnogaeth i Wcrain trwy ffotograffu eu dwylo mewn siâp calon. Dymaʼr darn gorffenedig. Yn ogystal, cawsom nifer helaeth o roddion caredig tuag at ein casgliad ar gyfer Wcrain. Diolch yn fawr i bawb.



Chwaraeon, Chwaraeon, Chwaraeon

Maeʼr tymor yma wedi bod yn prysur iawn o ran chwaraeon - rygbi, dringo, pêl-droed, pêl-rwyd, trawsgwlad, gymnasteg, beicio mynydd, badminton, sgio. Diolch yn fawr iawn am yr holl ymdrech a chalon maeʼr disgyblion wedi dangos i gynrychioliʼr ysgol. Diolch yn fawr!

Pencampwr Cymru

Rydym i gyd yn falch iawn o lwyddiant gymnasteg Riley yn ddiweddar. Mae wedi llwyddo i gael medal aur dros Gymru wrth gystadlu yng nghystadleuaeth y parau. Llongyfarchiadau mawr Rlley!

Cogurdd

Cogurdd Bl 4.5 a 6 gyda chriw brwdfrydig a hwyliog. Llongyfarchiadau i bawb ar greu Cibabs Ffrwythau lliwgar a blasus a mwynhau eu hamser yn y gegin.

Llongyfarchiadau i:

Iaf - Beca Hughes

2il - Cara Rees

3ydd - Cadi Jones

Taith Sgio

Croeso nôl iʼr criw a fu ar daith sgïo i Andora yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i Mrs Owain a drefnodd y daith o dan amgylchiadau heriol iawn ac iʼr staff a aeth ar y daith gydaʼr disgyblion. Cafodd pawb amser arbennig!

Dyddiadau Pwysig

I-22/04/22 - Gwyliauʼr Pasg

2 Mai 2022 (Calan Mai)

13.05.22 - Diwrnod HMS (dim ysgol i ddisgyblion)

30 Mai - 3 Mehefin 2022 (Hanner-Tymor)

04.07.22 - Noson rieni Bl 8

1/07/22 - Noson rieni Derbyn - Bl 7

18.07.22 - Diwrnod HMS (dim ysgol i ddisgyblion)

19.07.22 - Diwrnod HMS (dim ysgol i ddisgyblion)

20 Gorffennaf 2022 – Gŵyl Y Banc

21 Gorffennaf - 29 Awst 2022 (Gwyliauʼr Haf)

Pwyntiau Cyswllt Ffês 2

Mewn cyfnod mor anodd a digynsail, cofiwch ein bod yma i gefnogi pob rhiant a disgybl. Os ydych yn awyddus i drafod unrhyw fater mae croeso i chi gysylltu gyda ni.

Pennaeth Cynorthwyol Ffês 2

Mr Steffan Rhys Nutting

Anogwr Dysgu Safonau a Lles Ffês 2

Miss Heledd Mai Jones